Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Wythnos 48 (1af i'r 7fed o Fawrth 2021)**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Mae'r arolwg yn cyfweld tua 600 o unigolion a ddewiswyd ar hap bob yn ail wythnos. Mae'r wybodaeth a gesglir yn sail i'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiadau bob pythefnos. Caiff data arolwg eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.* Ar gyfer rhai cwestiynau, mae niferoedd cyfatebol o oedolion (18 oed a hŷn) ym mhoblogaeth Cymru yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â chyfrannau wedi'u haddasu.#

Mae'r arolwg yn cynnwys set o gwestiynau arferol a ofynnir bob wythnos arolwg, gyda chwestiynau eraill yn newid yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Yr wythnos hon, ychwanegwyd cwestiynau newydd ynghylch brechiad coronafeirws.

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o'u hamser gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith yma.



*Oni nodir yn wahanol. Oddi fewn i'r adroddiad, efallai na fydd y ffigyrau bob amser yn adio fyny i 100% oherwydd talgrynnu. #Wedi'i dalgrynnu i'r mil agosaf.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Prif ganfyddiadau'r wythnos hon

Cafodd 601 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed ac yn hyn eu cyfweld yn ystod wythnos 48 o'r arolwg (1af i'r 7fed Mawrth 2021).

## 42%

o bobl yn cytuno gyda'r datganiad 'byddwn i raddau helaeth wedi dychwelyd i'n bywydau arferol erbyn yr haf'; i fyny o 32% yn ystod wythnos yr arolwg ddiwethaf *.

## 42%

o bobl yn credu y dylid caniatáu i bob siop agor o fewn y tair wythnos nesaf #.

## 42%

yn credu y dylai pobl allu ymweld â ffrindiau a theulu yn eu cartrefi o fewn y tair wythnos nesaf #.

## 74%

o bobl yn cytuno gyda'r datganiad, dylai fod yn orfodol i bob oedolyn gael ei frechu rhag coronafeirws.

## 87%

o bobl yn dweud eu bod yn credu y dylai fod rhaid i bobl brofi eu bod wedi cael eu brechu er mwyn teithio dramor.

## 84%

o bobl yn dweud eu bod yn credu y dylai pobl orfod profi eu bod wedi cael eu brechu er mwyn gweithio mewn lleoliad fel cartref gofal neu ysbyty.

## 13%

o bobl yn dweud eu bod yn "bryderus iawn" y gallent gael coronafeirws; gostyngiad pellach o 18% yn ystod yr wythnos olaf o'r arolwg*.

## 20%

o bobl yn dweud fod eu sefyllfa ariannol yn waeth nawr nag yr oedd flwyddyn yn ôl, tra dywedodd 16% o bobl ei bod yn well.

## 27%

o bobl wedi dweud eu bod yn poeni "llawer" am eu hiechyd meddwl yn ystod yr wythnos diwethaf; sy'n cyfateb i oddeutu 679'000 o oedolion ledled Cymru.


* 15fed i 21ain Chwefror 2021; # gan gynnwys y rhai a gredai y dylai hyn fod yn digwydd eisoes.

# Ynglŷn â coronafeirws

| Cwestiwn | Ymateb | % |
|---|---|---|
| Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws? | Do | 20% |
| | Ddim yn gwybod | 4% |
| Ydych chi wedi cael eicg profi am glefyd coronafeirws neu ydach chi wedi cael y prawf gwrthgyrff? | Wedi cael prawf coronafeirws | 44% |
| | Wedi cael gwrthgyrff | 7% |
| Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws? | Dim o gwbl | 28% |
| | Ychydig | 33% |
| | Gymedrol | 25% |
| | Hynod | 13% |

# Ynglŷn â coronafeirws

## Ar hyn o bryd, tua faint o bobl yng Nghymru ydych chi’n meddwl sydd wedi’u heintio gyda’r coronafeirws?





- Amcangyfrifodd Arolwg Heintiau ONS COVID-19, yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 27 Chwefror 2021 (wythnos cyn yr arolwg yma), fod gan 1 o bob 285 o bobl yng Nghymru coronafeirws (cyfwng credadwy 95%: 1 mewn 415 i 1 yn 205).

www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveypilot/previousReleases

# Gwybodaeth a chydymffurfio â'r cyfyngiadau

**Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod yn deall y cyfyngiadau presennol sydd ar waith yng Nghymru i leihau lledaeniad coronafeirws?**





**Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod yn deall y cyfyngiadau presennol sydd ar waith yng Nghymru i leihau lledaeniad coronafeirws?**

Dim o gwbl — Yn llwyr

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| <1% | 0% | 1% | <1% | 1% | 1% | 2% | 18% | 27% | 49% |


**Dwi'n credu fod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol**



# Cadw pellter cymdeithasol

| | Dim | 1 - 2 | 3 - 10 | Mwy na 10 |
|---|---|---|---|---|
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref chi eich hun neu aelwyd estynedig a ganiateir, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl eraill ydych chi wedi dod i gysylltiad agos â nhw, o fewn 1 metr? | 39% | 19% | 19% | 22% |
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref chi eich hun neu aelwyd estynedig a ganiateir, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl sydd wedi dod i mewn i'ch tŷ? | 78% | 16% | 5% | 1% |
| Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o dai pobl eraill rydych chi wedi bod ynddyn nhw - heb gynnwys tai aelwyd estynedig a ganiateir? | 86% | 11% | 2% | 1% |


Pan fyddwch gyda phobl o'r tu allan i'ch cartref neu aelwyd estynedig, fel ffrindiau neu gydweithwyr yn y gwaith, a ydych yn cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr…?





**Ddim yn cwrdd â phobl o'r tu allan i'r cartref*

# Canfyddiadau ar gyfyngiadau


## I ba raddau ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r mesurau cloi cyfredol sydd ar waith yng Nghymru?




## Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r cloeon cenedlaethol ar atal lledaeniad coronafeirws?




## Pa un o'r ddau ddatganiad hyn ydych chi'n cytuno â nhw fwyaf?




Wythnos 48 (1af i 7fed o Fawrth 2021)


# Canfyddiadau ar gyfyngiadau

## Pryd ydych chi'n meddwl y dylai'r canlynol ddigwydd?

| | Dylai fod yn digwydd yn eisioes | O fewn y 3 wythnos nesaf | Mewn mwy na 3 wythnos |
|---|---|---|---|
| Dylai pob siop allu agor | 11% | 31% | 58% |
| Dylai bwytai allu ailagor | 9% | 20% | 71% |
| Dylai tafarndai a bariau allu ail-agor | 9% | 14% | 78% |
| Dylai gweithwyr nad ydynt yn hanfodol allu ddychwelyd i'w gweithleoedd | 14% | 33% | 54% |
| Dylai pobl allu ymweld â ffrindiau a theulu yn eu cartrefi | 14% | 28% | 58% |
| Dylai pobl allu teithio i ddefnyddio lleoedd awyr agored fel parciau a thraethau | 29% | 35% | 36% |

# Canfyddiadau ar gyfyngiadau


**Gan ddechrau o nawr, sawl mis o gyfanswm y clo (gyda'r holl ysgolion, siopa a gweithleoedd nad ydynt yn hanfodol ar gau) fyddech chi'n barod i ddioddef pe bai'n gwarantu y byddai gweddill y flwyddyn yn rhydd o'r feirws?**



# Brechu

## Pebaech yn cael cynnig y brechiad...


### A fyddech chi'n bersonol eisiau cael eich brechu?




*Eisioes wedi derbyn brechiad coronafeirws

*I'r rhai sydd gyda plant yn yr aelwyd**:*

### Fyddech chi eisiau i'ch plant gael eu brechu?




***Cyfyngedig i'r rhai â phlant sy'n byw ar yr aelwyd; ac eithrio'r rhai sy'n ymateb 'ddim yn berthnasol'; data heb ei pwyso.*

I'r rhai a ymatebodd 'na' neu 'ansicr' i fod eisiau cael eu brechu'n bersonol, gofynnwyd cwestiwn pen agored am eu rheswm dros yr ymateb hynny.

Ymhlith y rhai a roddodd ymateb, roedd y rhesymau'n cynnwys: peidio ag ymddiried yn y brechlynnau oherwydd cyflymder eu datblygiad a sgil-effeithiau anhysbys; ar ôl clywed am ymatebion niweidiol i'r brechlynnau; ddim yn teimlo fod angen brechu; ac amheuaeth tuag at y broses frechu.

# Brechu

## Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?


| | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Dylai fod yn orfodol i bob oedolyn gael ei frechu rhag coronafeirws | 74% | 26% |
| Dylai fod yn orfodol i blant gael eu brechu rhag coronafeirws | 56% | 44% |
| Dylai fod yn ofynnol i bobl sy'n teithio i'r DU o wledydd eraill brofi eu bod wedi cael eu brechu rhag coronafeirws | 90% | 10% |

## Ar ôl i bawb gael cyfle i gael eu brechu rhag coronafeirws, a ydych chi'n credu y dylai pobl orfod profi eu bod wedi cael brechiad, fel gyda phasbort neu dystysgrif brechu, er mwyn gwneud y canlynol:

| | Dylai | Na ddylai |
|---|---|---|
| Teithio tramor | 87% | 13% |
| Mynychu digwyddiadau adloniant mawr fel cyngherddau a digwyddiadau chwaraeon | 77% | 23% |
| Mynd i fwyty neu dafarn | 62% | 38% |
| Gweithio mewn lleoliad fel cartref gofal neu ysbyty | 84% | 16% |
| Mynychu eu gweithle arferol os yw hyn yn cynnwys cyswllt agos â phobl eraill | 77% | 23% |

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref neu'ch gardd?





## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref…

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 58% | 7% | 9% | 26% |
| …i siopa | 33% | 52% | 9% | 6% |
| …am resymau meddygol | 77% | 21% | 2% | 1% |
| …i ymarfer corff | 47% | 15% | 8% | 31% |
| …i gwrdd â teulu / ffrindiau | 83% | 12% | 2% | 2% |
| …i fwyta mewn caffi, tafarn neu fwyty | 100% | 0% | 0% | 0% |

# Pa mor dda ydym ni'n ymdopi â choronafeirws?


## Ydych chi'n meddwl fod y cyfyngiadau sydd mewn lle i reoli coronafeirws yn…





| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 15% | 51% | 11% | 14% | 9% |
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 23% | 57% | 8% | 11% | 1% |
| Rwyf yn hyderus y gwnaiff yr heddlu ddefnyddio eu pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 14% | 56% | 8% | 18% | 5% |

# Ansawdd bywyd

## Yn gyffredinol, dros y 6 mis diwethaf, ydy'r clo a chyfyngiadau coronafeirws eraill wedi effeithio ar ansawdd eich bywyd?




## Yn gyffredinol, dros y 6 mis diwethaf, ydy poeni am ddal coronafeirws wedi gwaethygu ansawdd eich bywyd?



# Am beth ydym ni'n ei boeni?

## Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni chi?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 45% | 39% | 16% |
| Colli rhywun annwyl i'r feirws | 27% | 29% | 43% |
| Lles eich plant*#~ | 14% | 28% | 58% |
| Addysg eich plant*#~ | 10% | 22% | 67% |
| Colli'ch swydd neu fethu â dod o hyd i un #~ | 61% | 18% | 21% |
| Gwaith, hyd yn oed os yw'ch swydd yn ddiogel #~ | 54% | 24% | 22% |
| Eich materion ariannol | 58% | 23% | 18% |
| Mynd allan i fannau cyhoeddus# | 49% | 29% | 22% |
| Effeithiau Brexit | 62% | 24% | 14% |

*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant sy'n byw ar yr aelwyd; ~Data heb eu pwysoli; #Ac eithrio'r rhai a ymatebodd 'ddim yn berthnasol'

Wythnos 48 (1af i 7fed o Fawrth 2021)

# Beth sydd wedi newid?

## O'i gymharu â'r amser yma flwyddyn yn ôl, a fyddech chi'n dweud fod y canlynol wedi ei heffeithio …


| | Llawer gwell | Ychydig yn well | Yr un fath | Ychydig yn waeth (Gwaethygu) | Llawer gwaeth (Gwaethygu) | Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eich iechyd corfforol | 3% | 8% | 44% | 25% | 18% | 1,106,000 |
| Eich ffitrwydd corfforol | 3% | 12% | 40% | 24% | 21% | 1,135,000 |
| Eich iechyd meddwl | 2% | 4% | 45% | 30% | 19% | 1,230,000 |
| Eich iechyd deintyddol | 3% | 3% | 68% | 16% | 11% | 682,000 |
| Eich perthnasoedd teuluol | 3% | 10% | 56% | 21% | 10% | 779,000 |
| Eich perthnasedd cymdeithasol | 1% | 4% | 36% | 29% | 29% | 1,472,000 |
| Eich sefyllfa ariannol | 7% | 9% | 64% | 13% | 7% | 506,000 |
| Eich rhagolygon cyflogaeth neu gwaith | 3% | 3% | 79% | 8% | 8% | 390,000 |

Wythnos 48 (1af i 7fed o Fawrth 2021)


# Beth sydd wedi newid?

**O'i gymharu â'r amser yma y llynedd, a fyddech chi'n dweud fod y canlynol wedi lleihau, aros yr un fath neu gynyddu?**


## Cyfanswm o alcohol rydych yn ei yfed




## Eich pryder am newid yn yr hinsawdd




## Eich pwysau



# Blaenoriaethu polisiau

O'r rhestr o feysydd polisi posib, pa flaenoriaethau fyddech chi'n eu blaenoriaethu'n gyntaf, ail a thrydydd ar gyfer 2021 yn eich barn chi?

| | Blaenoriaeth 1af | 2nd Flaenoriaeth | 3ydd Blaenoriaeth | Wedi'i cynnwys yn y dair prif flaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| Coronafeirws | 50% | 11% | 11% | 72% |
| Rhestr aros GIG | 20% | 24% | 21% | 65% |
| Addysg | 14% | 24% | 18% | 55% |
| Iechyd a lles | 8% | 18% | 19% | 45% |
| Diwethdra | 3% | 8% | 18% | 29% |
| Newid hinsawdd | 4% | 7% | 8% | 19% |
| Brexit | 1% | 9% | 5% | 15% |

Wythnos 48 (1af i 7fed o Fawrth 2021)

# Edrych ymlaen

## Faint ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol ?


| | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Byddwn i raddau helaeth wedi dychwelyd i'n bywydau arferol erbyn yr haf | 42% | 58% |
| Bydd pobl yn gallu mynd dramor ar wyliau yr haf yma | 38% | 62% |
| Nadolig nesaf, bydd pobl yn rhydd i gymysgu a theithio fel y dymunant | 77% | 23% |
| Bydd yr economi'n gwella'n gyflym o sioc coronafeirws | 31% | 69% |
| Byddwn dal i brofi achosion o coronafeirws yn y 2 i 3 mlynedd nesaf i ddod | 88% | 12% |
| Bydd gwisgo mygydau gwyneb o leiaf yn achlysurol yn ran o fywyd am flynyddoedd i ddod | 85% | 15% |
| Byddwn yn fodlon derbyn lefelau isel o coronafeirws yn y gymuned pebai'n golygu y gallem ddychwelyd i'n bywyd arferol | 73% | 27% |
| Wrth symud ymlaen, byddwn yn ei chael yn dderbyniol pebai marwolaethau o coronafeirws ar yr un lefelau ag a welwn fel arfer o'r ffliw | 75% | 25% |

# Sut oedd y flwyddyn?

**Ar raddfa o 0 i 100, lle 0 yw'r gwaethaf y gallwch chi ei ddychmygu a 100 yw'r gorau y gallwch chi ei ddychmygu, sut fyddech chi'n sgorio:**

| | 0 | 1-20 | 21-40 | 41-60 | 61-80 | 81-100 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y flwyddyn 2020 | 14% | 31% | 20% | 23% | 9% | 3% |
| Y flwyddyn 2019 | 1% | 6% | 3% | 13% | 38% | 39% |
| A beth ydych chi'n meddwl fydd y sgôr 2021? | 4% | 13% | 17% | 39% | 23% | 4% |

## Sgoriau canolrif



# Sut ydym yn teimlo?

## Pa mor iach ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn iach o gwbl — 10 = Iach iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 13% | 44% | 43% |

324,000 (0-3) — Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru

## Pa mor hapus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn hapus o gwbl — 10 = Hapus iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 14% | 34% | 51% |

365,000 (0-3) — Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru

## Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn bryderus o gwbl — 10 = Yn hynod o bryderus

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 50% | 30% | 21% |

Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru — 518,000 (7-10)

## Sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o ymarfer corff (digon i wneud i chi golli eich anadl)?

| 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|
| 27% | 40% | 33% |

673,000 (0 diwrnod) — Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru

# Sut ydym yn teimlo?

## Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n….

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 62% | 51% |
| Weithiau | 22% | 24% |
| Yn aml | 13% | 19% |
| Wastad | 3% | 6% |

Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru (Unig, Yn aml + Wastad): 409,000

Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru (Ynysig, Yn aml + Wastad): 643,000

---

## Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni?

Eich iechyd a'ch lles meddyliol

| | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 42% |
| Ychydig | 31% |
| Llawer | 27% |

Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru (Llawer): 679,000

## Cyhoeddwyd Chwefror 12fed 2021

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

phwwhocc.co.uk

@phwwhocc Phwwhocc

# Ymholiadau

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Sara Wood


**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ


## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

